Bwletin y Coleg Ffederal

Beth yw'r Coleg Ffederal?

Cenhadaeth y Coleg Ffederal fydd cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Ni fydd yn endid daearyddol sengl ac ni fydd yn gorff dyfarnu graddau, ond bydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda a thrwy'r sefydliadau addysg uwch (AU) presennol yng Nghymru. Bydd yn endid cyfreithiol annibynnol newydd gyda'i Chyfansoddiad ei hun.

Cafodd y penderfyniad i sefydlu Coleg Ffederal yn y modd hwn ei wneud yn sgil gwaith y Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal, a gadeiriwyd gan yr Athro Robin Williams, a'i adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009.

Bydd y Coleg Ffederal yn datblygu ac yn ymgorffori gweithgareddau'r Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Sut y caiff ei ddatblygu?

Bydd Bwrdd Gweithredu yn goruchwylio datblygiad cyfreithiol y Coleg Ffederal addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y Bwrdd yn datblygu trefniadau ar gyfer ymdrin â materion cyllido, ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, strwythur rheoli a staffio'r Coleg Ffederal, a phenodi Cyngor Cenedlaethol newydd y Coleg Ffederal, sef ei gorff llywodraethu, a throsglwyddo'r awenau iddo. Cadeirydd y Bwrdd yw Geraint Talfan Davies.

Pwy sydd ar y Bwrdd?

Mae'r Bwrdd Gweithredu wedi cael ei ffurfio drwy estyn aelodaeth y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg presennol, fel yr argymhellwyd yn adroddiad yr Athro Williams, drwy ei chyfuno ag aelodaeth y Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal gwreiddiol. Mae'r Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn 2007, wedi bod yn gyfrifol am sefydlu a gweithredu fframwaith a chynllun datblygu

strategol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gellir gweld rhestr lawn o aelodau'r Bwrdd Gweithredu Coleg Ffederal yn ein datganiad i'r wasg.

A yw'r Bwrdd wedi cyfarfod eto?

Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ar 30 Ebrill.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd cyflwyniad ar y ffurf y gallai'r Coleg Ffederal ei chymryd fel endid cyfreithiol.

Nodwyd:

- mai pwrpas y cyfarfod cyntaf hwn oedd rhoi cyfle i'r aelodau gael amcan o hyd a lled y gwaith dan sylw a'r materion y byddai angen mynd i'r afael â hwy;
- ei bod hi'n hanfodol na châi gwaith pwysig y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (y Ganolfan) ei ansefydlogi yn ystod y cyfnod pontio hyd at sefydlu'r Coleg Ffederal;
- y byddai camau yn y broses pan fyddai angen cael barn Is-Gangellorion neu gyrff llywodraethu, yn ogystal â safbwyntiau arbenigol o fewn SAUau.

Cytunwyd:

- y byddai'r Cadeirydd yn sefydlu Grŵp Gwaith llai i ymgymryd â gwaith manwl rhwng prif gyfarfodydd y Bwrdd ac i roi gwybod i'r Bwrdd am y canlyniadau;
- y byddai CCAUC yn ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau a'r wasg ar ran y Bwrdd, gan ymgynghori â'r Cadeirydd yn ôl yr angen.

Beth fydd canlyniadau'r trafodaethau?

Y nod yw cytuno ar Gyfansoddiad erbyn diwedd y flwyddyn. Yna gwneir trefniadau i benodi'r Cyngor Cenedlaethol fel y gall y Coleg Ffederal ddechrau ei waith ym mis Medi 2011. Mae'r Bwrdd Gweithredu yn wynebu cyfnod prysur iawn. Mae rhai materion cymhleth i'w hystyried i sicrhau y bydd gan y Coleg Ffederal y gallu a'r

drefniadaeth i wireddu'r dyheadau yn adroddiad yr Athro Williams.

Pryd y bydd y diweddariad nesaf?

Byddwn yn adrodd ar y datblygiadau diweddaraf ar ôl y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.